**Negeseuon Allweddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru**
**Ionawr 2019**

### Asesiad o Anghenion Llinellau Sirol – cyflwyniad gan Claire Thomas o Heddlu Gogledd Cymru:

- Bydd Aelodau'r Bwrdd yn mynd â'r wybodaeth yn ôl i'w sefydliadau er mwyn canfod y ffordd orau iddynt gyfrannu
- Bydd Uned Busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn trafod y pwnc ar lefel genedlaethol
- Caiff y mater ei godi a'i drafod yn y Bwrdd Diogelu Oedolion
- Cyflëir y negeseuon allweddol ar y diwrnod datblygu busnes
- Bydd CT yn dod i gyfarfodydd y Bwrdd o bryd i'w gilydd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf.

### Cafodd y polisïau canlynol eu cadarnhau gan aelodau Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru:

- *Protocol ar y cyd o ran Diogelu Plant a Phobl Ifanc a effeithir gan Oedolion sy'n edrych ar ddelweddau anweddus o blant* – cyhoeddir y polisi ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn fuan fel y gall pobl ei ddarllen a'i lawrlwytho.

### Cynllun Busnes / Sesiwn Datblygu Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru:

Trafodwyd y cynllun Busnes a Chyllid ac fe'i trafodir yn fanylach ar Ddiwrnod Datblygu Busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar 28 Ionawr 2019.

### Gweithdrefnau Amddiffyn Cenedlaethol:

- Anogodd Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru aelodau'r Bwrdd i adolygu'r bennod gyfredol, a gofynnodd i'r grŵp feithrin cyswllt â'u cynrychiolwyr oedd yn ymwneud â'r ymateb.
- Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Oedolion a Phlant ar y Cyd wedi'i drefnu ar gyfer 4 Chwefror, a'r pwnc dan sylw fydd y cam Cynllunio ac Ymyrryd o'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol.

### Y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Is-grwpiau:

Fforwm Ymarfer Aml-asiantaeth Ynys Môn:

- Mae'r cyflwyniad wedi'i gynnwys ym mhecyn cyfarfod Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Materion allweddol a nodwyd:

  Arferion Da

- √ Llais y Plentyn wedi'i gofnodi mewn Nodiadau Achosion
- √ Gweithio'n uniongyrchol gyda'r Plant a'u Mamau
- √ Presenoldeb aml-asiantaeth mewn cyfarfod diogelu allweddol.

Meysydd i'w gwella

- ❖ Diffyg asesiadau cyn geni
- ❖ Adroddiadau meddygon teulu ar gyfer Cynadleddau Achos Cychwynnol.

Adolygiadau Ymarfer Plant Conwy:

- Mae'r Cadeirydd a'r adolygwyr wedi'u penodi bellach.

### Ymateb y Grŵp Darparu Lleol i'r Bwrdd

- Wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r gweithdrefnau.
- Arolygwyr Gwynedd a gyflwynodd yr ymateb.
- Dymunir cael lansiad/digwyddiad dysgu ffurfiol ar gyfer staff yn y rheng flaen ar ôl cadarnhau'r polisïau a'r gweithdrefnau.
- Cafwyd ymateb da yn sgil digwyddiad Cymuned Ymarfer y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant / Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ynglŷn â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.

### Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Rhywiol ar Blant

- Mae'r Ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo; mae Cyngor Sir y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi tystiolaeth.